**Edwina Hart MBE CStJ AC / AM**
**Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth**
**Minister for Economy, Science and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref p-04-658
Ein cyf/Our ref EH/00327/16

William Powell AC
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau

committeebusiness@Cymru.gsi.gov.uk

01 Chwefror 2016

Annwyl William,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 21 Ionawr ynghylch deiseb P-04-658 i ddiogelu'r Dderwen Brimmon mewn perthynas â ffordd osgoi'r A483 yn y Drenewydd.

Rydym yn ymwybodol o'r pryderon ynghylch y Dderwen Brimmon ac fe drafodwyd y mater yn fanwl yn yr Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol. Roedd yr Arolygwr o'r farn na fyddai'r hen goeden o dan fygythiad wrth i'r gwaith adeiladu fynd yn ei flaen ar gyfer y cynllun. Er hynny, dywedodd bod angen gofal wrth lunio manylion y cynllun a'i bod yn hanfodol goruchwylio'r gwaith yn ofalus ger y dderwen.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gynigion gerbron i newid lleoliad y briffordd fel ei bod yn cadw draw o'r goeden a sicrhau bod cyn lleied o waith ag sy'n bosibl yn cael ei wneud o fewn y 15 metr lle ceir parth gwarchod gwreiddiau'r goeden, fel yr argymhellwyd gan arbenigwyr coedyddiaeth ac yn unol â'r Safonau Prydeinig. Gwnaeth yr Arolygwr dderbyn y cynigion hynny.

Gallaf eich sicrhau y bydd ôl gofal wrth y gwaith cynllunio manwl a'r gwaith goruchwylio ger y goeden.

Edwina Hart

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.edwina.Hart@Wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.